# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 3

CYFFREDINOL

### 51 Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

(1) Mae Atodlen 1 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur hwn.

(2) Mae Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ar gyfer Rhan 2 o'r Mesur hwn.

**F1**(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4 Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth drwy orchymyn y bydd Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol at ddibenion cyffredinol, neu unrhyw ddibenion penodol, y Mesur hwn, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy'r Mesur hwn, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

(5 Caiff gorchymyn o dan is-adran (4) wneud y canlynol yn benodol—

- (a) darparu bod unrhyw ddiwygiad neu unrhyw ddarpariaeth arall a wneir drwy'r Mesur hwn ac sy'n dod i rym cyn y bydd unrhyw ddarpariaeth arall wedi dod i rym yn cael effaith, hyd nes y bydd y ddarpariaeth arall honno wedi dod i rym, gydag addasiadau penodedig, a
- (b) diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth mewn—
  - (i) unrhyw Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys y Mesur hwn); a
  - (ii) is-ddeddfwriaeth.

(6 Mae'r diwygiadau y caniateir eu gwneud yn rhinwedd is-adran (5)(b) yn ychwanegol at y rhai a wneir neu y caniateir eu gwneud o dan unrhyw un o ddarpariaethau eraill y Mesur hwn.

(7 Yn yr adran hon mae i "is-ddeddfwriaeth" yr un ystyr â *"subordinate legislation"* yn Neddf Ddehongli 1978 (p. 30).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### Diwygiadau Testunol

**F1** A. 51(3) wedi ei diddymu (1.4.2016) gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2), a. 56(2), **Atod. 4 para. 22**; O.S. 2016/86, ergl. 3

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 51(4)-(7) mewn grym ar 10.6.2009, gweler **a. 53(1)**

**I2** A. 51(1) mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2** (ynghyd ag ergl. 3(2)-(5)) (as diwygio (8.9.2010) gan O.S. 2010/2237, ergl. 2)

**I3** A. 51(2)(3) mewn grym ar 1.1.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 2, **Atod. 1**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.